

1. CYFLWYNIAD

Pwrpas y llyfryn hwn yw cyflwyno ichi'r dewis helaeth o wasanaethau sydd ar gael i'ch cynorthwyo yn ystod eich cyfnod astudio. Os oes gennych broblem academiaidd y lle cyntaf i droi wrth reswm yw arolygydd/cydllynydd eich cwrs. Efallai y bydd rhyw fater arall yn codi o bryd i'w gilydd a allai beri pryder. Mae Aberystwyth yn enwog am ei naws gyfeillgar, ac mae staff arbenigol ar gael i'ch cynghori, neu i'ch cyfeirio at gymorth perthnasol.

2. Y SWYDDFA DDERBYN (GRADDEDIGION)

www.aber.ac.uk/pga

- 2.1 Bydd y Swyddfa hon yn eich helpu gyda'ch cais am astudio uwchraddedig neu ddsygu o bell yn Aberystwyth. Gallwn roi ffurflenni cais ichi, copi o'n prospectws a llawlyfrau adrannol, a ni fydd yn delio â'ch cais ar ôl ichi ei gyflwyno. Rydym yma i roi cyngor ar unrhyw adeg yn y broses geisiadau, ac rydym yn barod i drafod unrhyw gwestiwn. Gallwn roi cyngor ar fatriciwlleiddio, ffynonellau cyllid, gofynion iaith, a'r rhaglen ragarweiniol.
- 2.2 Mae'r *Swyddfa Derbyn Graddedig* ar y llawr cyntaf, 2 Glan-y-Môr (gyferbyn â'r Pier) (gweler y cyfeiriadau).

3. Y SWYDDFA ACADEMAIDD

www.aber.ac.uk/academicoffice

- 3.1 Mae'r Swyddfa Academaidd yn gyfrifol am:
- gofrestru
 - eich cofnod academiaidd
 - trawsgriadau myfyrwyr i fodiwlau a ddsygir
 - cyflwyno traethodau ymchwil
 - prosesu canlyniadau Meistr.
- 3.2 Mae tri gweinyddwr yn gyfrifol am uwchraddedigion: un ohonynt (Dr Alan Macmillan) yn gweithio yn Swyddfa'r Deoniaid ac yn gofalu am fyfyrwyr dysgu o bell, a'r ddau arall yn gweithio yn y Swyddfa Academaidd sef – Mrs Tracy Herberts, sy'n gofalu am fyfyrwyr amser llawn a rhan-amser, a Miss Hayley Burns sy'n gofalu am gyflwyno traethodau ymchwil.
- 3.3 Cysylltwch â'r swyddfa hon os oes gennych ymholiadau ynghylch:
- cofrestru
 - dyddiadau cau
 - canlyniadau arholiad
 - rheolau a rheoliadau
 - tynnu allan o'r cwrs
- neu os oes angen y canlynol amoch:
- tystysgrifau cofrestru
 - dogfennau cyflwyno
 - tystysgrifau ffioedd
 - ffurflenni newid enw neu gyfeiriad
 - gwe-ddalen myfyrwyr uwchraddedig: www.aber.ac.uk/academicoffice/postgraduate/studguide.shtml
- 3.4 **Rhaid i bob myfyrwr ailgofrestru bob blwyddyn ym mis Medi.** Anfonir dogfennau rhag-gofrestru i bawb yn ystod yr haf os disgwylir iddynt barhau i astudio yn y flwyddyn academiaidd ganlynol. Os nad ydych yn derbyn dogfennau, cysylltwch â'r Swyddfa Academaidd. Nodwch y bydd yr hawl i ddefnyddio Gwasanaethau Gwybodaeth (h.y. y Llyfrgelloedd a'r Cyfrifiaduron) yn dod i ben ar ddiwedd cyfnod eich cofrestriad, ond gallwch dalu ffi fechan i'w defnyddio am gyfnod tan i chi orffen eich cwrs.
- 3.5 Ein nod yw cadw cofnodion cyfredol amdanoch trwy'r amser, ond er mwyn gwneud hyn rhaid ichi roi gwybod inni am newidiadau (i'ch enw, eich cyfeiriad, eich statws, ac yn y blaen). Peidiwch â thybio y bydd eich adran yn anfon gwybodaeth atom.
- 3.6 Mae'r *Swyddfa Academaidd* ar y llawr cyntaf yn yr Hen Goleg, ar ochr y castell. Mae Swyddfa'r Deoniaid ar lawr gwaelod Adeilad Cledwyn, Campws Penglais (gweler y cyfeiriadau).

4. Y SWYDDFA ASTUDIAETHAU UWCHRADEDIG

- 4.1 Y Cyfarwyddwr Astudiaethau Uwchraddedig sy'n gyfrifol am y ddarpariaeth o gyrsiau hyfforddi i uwchraddedigion yn y sefydliad, ac y mae hefyd yn gyd-gysylltydd o ran datblygu polisi ar faterion yn ymwneud ag uwchraddedigion, ac i'r broses o fonitro cynnydd academiaidd uwchraddedigion. Mae Aberystwyth wedi ymrwmo i ddarparu hyfforddiant ar lefel addas i uwchraddedigion a sefydlwyd Rhaglen Datblygu a Hyfforddi i uwchraddedigion y tair cyfadran, yn unol â gofynion penodol a osodwyd gan Gyfadranau, Adranau neu gyrff cyllido. Ar hyn o bryd mae'r modiwlau hyfforddi a gynigir yn rhan o'r rhaglen uchod yn cynnwys:
- Sgiliau Ymchwil a Datblygiad Personol
 - Egwyddorion Cynllunio Ymchwil
 - Casglu Data a Dadansoddi Data
 - Dulliau Darllen
 - Sgiliau Iaith
- Ceir manylion llawn mewn llyfryn ar wahân sy'n sôn am y Rhaglen Datblygu a Hyfforddi.
- 4.2 Mae'r Cyfarwyddwr Astudiaethau Uwchraddedig yn gweithio ar y cyd â'r staff academiaidd a gweinyddol, ac yn benodol drwy system reolaidd o gyfarfodydd, â Deoniaid y Cyfadranau a'r Cyfarwyddwr Datblygu Staff ar y naill law, a chydwyddogion allweddol yn y Gofrestrfa ar y llaw arall. Rhoddir cymorth i'r Cyfarwyddwr gan Staff y Gofrestrfa sy'n ymwneud â derbyn a rhoi cymorth gweinyddol i uwchraddedigion. Gweithredir y polisiâu trwy drafod â chydlynwyr uwchraddedig y Cyfadranau a'r Adranau. Mae'r Cyfarwyddwr Astudiaethau Uwchraddedig hefyd yn casglu gwybodaeth a barn ar gyflwr cyfredol addysg uwchraddedig, ac yn trefnu nifer o gyfarfodydd trafod i'r myfyrwyr a'r arolygwyr fel ei gilydd. Pwrpas hyn yw rhoi cyfle i drafod mewn modd adeiladol holl ystod y pynciau sy'n cael effaith ar gymuned yr uwchraddedigion yn Aberystwyth. Mae'r Cyfarwyddwr yn gweithio gyda'r Cyfarwyddwr Datblygu Staff hefyd i sicrhau hyfforddiant a chefnogaeth addas i'r arolygwyr; a hyfforddiant i uwchraddedigion sy'n dysgu myfyrwyr gradd.

- 4.3 Cynorthwyr y Cyfarwyddwr Uwchraddedig gan Gynorthwy-ydd Gweinyddol, sy'n gweithio yn Ystafell G9 yn Adeilad Cledwyn. Cewch gyfle i gwrdd â'r ddau yn y Cyfarfod Rhagarweiniol ar ddechrau'r flwyddyn academaidd. Gellir hefyd gysylltu â'r ddau ar adegau penodol, neu trwy apwyntiad, os ydych angen cyngor. Y Cyfarwyddwr Uwchraddedig cyfredol yw Dr Diane Watt o'r Adran Saesneg, a'r Cynorthwy-ydd Gweinyddol yw Mrs Jan Davies, sy'n gweithio rhan-amser yn y Swyddfa Astudiaethau Uwchraddedig (oriau wedi eu nodi ar wefan y swyddfa ac ar ddrws y swyddfa).

4.4 **Cyfathrebu**

● HYSBYSFYRDDAU

Gosodwyd hysbysfyRDDau i uwchraddedigion yn Llyfrgell Hugh Owen, Llyfrgell Thomas Parry, Llyfrgell y Gwyddorau Ffisegol, Llyfrgell yr Hen Goleg, a'r tu allan i'r Swyddfa Astudiaethau Uwchraddedig. I hysbysiadau swyddogol yn unig y mae'r rhain.

● TUDALEN AR Y WE

Mae tudalennau'r Swyddfa Astudiaethau Uwchraddedig i'w cael ar y safle canlynol ar y We: www.aber.ac.uk/postgrads/

● CYLCH NEWYDDION

Gellir cael hyd i gylich newyddion uwchraddedigion yn Usenet dan **aber.postgrad**. Mae'n cynnig llwyfan ar gyfer trafodaeth a chyhoeddi gweithgareddau, cyfarfodydd, hysbysiadau hyfforddiant ymchwil ac yn y blaen.

- 4.5 I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â *Jan Davies* yn y *Swyddfa Astudiaethau Uwchraddedig* (gweler y cyfeiriadau).

5. **CYMDEITHAS YR UWCHRADDLEDIGION**

- 5.1 Sefydlwyd Cymdeithas yr Uwchraddedigion ym 1996 gan nifer o fyfyrwyr uwchraddedig a oedd yn teimlo fod angen cynyddol am gorff o'r fath, yn enwedig gan fod y nifer y myfyrwyr uwchraddedig yn Aberystwyth wedi cynyddu'n sylweddol yn ddiweddar.

- 5.2 Amcanion Cymdeithas yr Uwchraddedigion yw:

- Cynrychioli pob myfyrwr uwchraddedig ar faterion academaidd ac anacademaidd yn y Brifysgol ac Urdd y Myfyrwyr;
- Cynnig llwyfan i drafodaeth uwchraddedig a meithrin ymdeimlad o gymuned;
- Cysylltu â chyrrff perthnasol ledled y wlad.

- 5.3 I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Chymdeithas yr Uwchraddedigion, *d/o y Swyddfa Astudiaethau Uwchraddedig*, (gweler y cyfeiriadau).

6. **GWASANAETHAU MASNACHEIDDIO AC YMGYNGHORI**

- 6.1 Yn ystod eich hyfforddiant ymchwil, cewch wybod am y gyfraith ar faterion hawliau eiddo deallusol, gan gynnwys patentau, hawlfraint, cynlluniau, nodau masnach, a gwybodaeth gyfrinachol.

- 6.2 Os oes angen rhagor o yngor ar hawliau eiddo deallusol yn ystod eich astudiaethau, fe'i cewch gan y Swyddfa uchod.

- 6.3 Gallwch alw unrhyw bryd i drefnu amser i drafod gyda Chyfarwyddwr y gwasanaeth hwn a fydd yn falch o'ch helpu.

- 6.4 Am ragor o wybodaeth, cysyllter â'r *Gwasanaethau Masnacheiddio ac Ymgynghori* (gweler y cyfeiriadau).

7. **Y GANOLFAN IAITH A DYSGU**

Cymorth i Fyfirwyr i astudio ac i loywi Saesneg

- 7.1 Pwrpas y **Ganolfan Iaith a Dysgu** yw cynnig cymorth iaith a dysgu i fyfyrwyr o wledydd Prydain a thramor ledled y sefydliad. Mae gan y staff gryn brofiad o weithio gyda myfyrwyr mewn amryw bynciau.

- 7.2 Cynhelir gweithdai ysgrifennu yn rheolaidd lle bydd staff yn gweithio gyda myfyrwyr. Cewch arweiniad ar faterion fel trefnu gwybodaeth ar bapur, cywirdeb gramadegol, arddull addas, targedu'r gynulleidfa, gogwydd, cyfeiriadau a dyfyniadau.

- 7.3 Mae manylion am y cymorth sydd ar gael i'w gweld ar y We (gweler y cyfeiriadau).

- 7.4 Mae arweiniad a chynngor ar gael hefyd i fyfyrwyr tramor sy'n gofyn am gymorth gyda phroblem iaith, diwylliant neu astudio. Galwch heibio, ffoniwch neu anfonwch e-bost i drefnu cyfarfod.

- 7.5 Gall myfyrwyr gyda dyslecsia neu Anawsterau Dysgu Penodol eraill gael help i ddatblygu dulliau a sgiliau i ddelio ag astudiaeth academaidd. Gyda chymorth ariannol y Lwfans Myfyrwyr Anabl, gall y Ganolfan ddarparu asesiad a hyfforddiant arbenigol. Mae grwpiau cymorth astudio i fyfyrwyr yn cwrdd yn rheolaidd ac yn cadw cysylltiad trwy gr_p trafod ar y We.

- 7.6 Cynigir y Gwasanaeth Dyslecsia gan staff sy'n deall yr hoffech efallai drafod pethau'n gyfrinachol. Mae gwasanaeth sgrinio ar gael ar gyfer canfod dyslecsia. Cysylltwch â'r Ganolfan i gael manylion am y dewis cyfan o wasanaethau a gynigir.

- 7.7 Os oes gennych ymholiadau am unrhyw un o'r uchod, cysylltwch â *Pauline Worthington, Y Ganolfan Iaith a Dysgu* (gweler cyfeiriadau).

8. **LLES MYFYRWYR YN ABERYSTWYTH**

- 8.1 Yn sgil ymrwymiad i gymorth myfyrwyr, mae Aberystwyth wedi adolygu ac ad-drefnu'n llwyr ei Gwasanaethau Lles. Fe wyddom fod gofal bugeiliol effeithiol yn gynyddol bwysig er mwyn llwyddiant ein rhaglenni dysgu, addysgu ac ymchwil, a hynny am sawl rheswm – cynnydd yn nifer y myfyrwyr, amrywiaeth cynyddol y math o fyfyrwyr sydd yma, a phwysau ariannol.

- 8.2 Canolbwynt y rhwydwaith lles yw'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymorth i Fyfirwyr amser llawn. Ymhlith ei ddyletswyddau y mae cynghori myfyrwyr ar faterion lles cyffredinol; dosbarthu Cronfeydd Caledi y Brifysgol; ymgynghori ar faterion lles â staff, myfyrwyr a chyrrff allanol. Mae'r gwasanaethau lles canlynol ar gael er mwyn ichi fedru manteisio'n llawn ar yr amgylchfyd dysgu yn Aberystwyth:

8.3 **Cymorth Meddygol**

Mae gan y Brifysgol swyddog meddygol amser llawn sy'n gallu rhoi cymorth i fyfyrwyr unigol. Gwasanaeth ychwanegol i'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol yw hwn. Mae nyrs y Brifysgol yn cynorthwyo'r swyddog meddygol.

8.4 **Gwasanaethau Cynghori Eraill**

Cyflogir swyddogion cynghori i fyfyrwyr trwy Urdd y Myfyrwyr. Maent wedi derbyn hyfforddiant ac maent ar gael i bob myfyrwr o drefnu cyfarfod.

8.5 **Ymgynghorydd Lles**

Cyflogir Ymgynghorydd Lles trwy Urdd y Myfyrwyr. Gall roi cynngor ar yr holl faterion sy'n cael effaith ar les myfyrwyr.

8.6 **Rheolwr Gofal Plant**

Gall gofalu am blant fod yn bryder ychwanegol i nifer o fyfyrwyr uwchraddedig, ond cofiwch fod gan y Brifysgol ddewis cynhwysfawr o gyfleusterau gofal plant. Er mwyn cynorthwyo myfyrwyr sy'n rhieni, mae'r Brifysgol yn cyflogi Rheolwr

Gofal Plant i gynghori am y gwasanaeth gofal plant a'i ddatblygu. Mae gofal meithrin dan oed ysgol ar gael ym Meithrinfa Glenview. Mae'r Brifysgol hefyd yn cefnogi 'Clwb R'ôl Rysgol' a Chynlluniau Chwarae Hanner Tymor a Gwyliau i blant o oed ysgol. I gael rhagor o wybodaeth am y cyfleusterau hyn, cysylltwch ag *Eleri Morris*, *Rheolwr Gofal Plant*, *Meithrinfa Glenview* (gweler y cyfeiriadau). Cynghorir myfyrwyr i gysylltu â'r Rheolwr Gofal Plant cyn gynted â phosibl gan fod llefydd yn brin ac ni ellir gwarantu lle yn y feithrinfa.

8.7 **Cymorth Ariannol**

Cydnabyddir fod Grantiau Uwchraddedig, pan fyddant ar gael, ar gyfer cynhaliach sylfaenol yn unig. Gall amgylchiadau godi lle bydd angen gwario penodol, megis gofalu am blant, anabledd, costau llety dros-dro, neu salwch. Efallai y bydd modd i'r Brifysgol gynorthwyo myfyrwyr unigol sy'n wynebu costau annisgwyl o'r fath, trwy'r Gronfa Ariannol wrth Gefn. Mae cymorth o'r Gronfa yn gyfyngedig i fyfyrwyr o wledydd Prydain yn unig. Cewch ffurflenni cais o'r *Swyddfa Cymorth Ariannol i Fyfirwyr* (gweler isod).

8.8 **Swyddfa Cymorth Ariannol i Fyfirwyr**

Mae'r Uned hon yn gyfrifol am weinyddu'r Cymorth Ariannol i fyfyrwyr:

- Benthyciadau i Fyfirwyr;
- Benthyciadau Caledi;
- Cronfa Ariannol wrth Gefn;
- Benthyciadau Datblygiad Gyrfa.

8.9 Mae staff sydd wedi eu hyfforddi'n arbennig ar gael i roi cyngor ac arweiniad wrth lenwi ffurflenni ar amodau hawlio ac yn y blaen. Am ragor o wybodaeth ar yr uchod, cysylltwch â'r *Swyddog Cymorth Ariannol i Fyfirwyr* a fydd yn barod i ateb ymholiadau (gweler y cyfeiriadau). Oriau agor – Llun-Iau, 9.00-5.30, Gwener, 9.00-4.30.

8.10 **Cymorth i'r Anabl**

Yn sgil ein polisi o gynyddu mynediad i fyfyrwyr sydd ag anabledd mae'r Brifysgol wedi buddsoddi mewn offer adnabod llais ac offer sganio testunau yn Llyfrgell Hugh Owen a Llyfrgell Thomas Parry. Gosodwyd Teledu Cyched Gaedig i fyfyrwyr sydd ag anawsterau gweld. Mae system meicroffon radio ar gael i'w benthyci i fyfyrwyr sydd ag anawsterau clywed. Gellir darparu llety sydd wedi ei addasu ac sydd â darpariaeth i ofalwyr, trwy drefniant.

I gael cyngor cyfrinachol ar faterion anabledd cysylltwch â Swyddog Anabledd y Brifysgol, sef Rhun ap Iari (ffôn: 01970 628537). (gweler cyfeiriadau).

8.11 **Cymorth Dysgu**

Mae dau aelod o'r staff wedi ennill cymhwyster Cymdeithas Dyslecsia Prydain i gynorthwyo myfyrwyr sydd ag anawsterau dysgu penodol (gweler hefyd y Ganolfan Iaith a Dysgu uchod).

8.12 Am ragor o fanylion am y rhain a Gwasanaethau Lles eraill, cysylltwch â'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymorth i Fyfirwyr (gweler y cyfeiriadau).

9. **CYMORTH DATBLYGU STAFF I FYFWRWYR UWCHRADEDIG**

9.1 Mae'r Swyddfa Datblygu Staff ar lawr cyntaf Adeilad Cledwyn (ystafelloedd G19 a G20) ac yno mae'r Cyfarwyddwr Datblygu Staff (Rosemary Lonsdale), y Swyddog Datblygu Staff (Ian Sharp), a'r Cynorthwy-ydd Datblygu Staff (Annette Edwards).

9.2 Bob semester, trefnir rhaglen o weithgaredd Datblygiad Proffesiynol, a'i chynnig i'r staff. Mae croeso i fyfyrwyr uwchraddedig gofrestru ar y cyrsiau hyn os oes lleoedd ar gael. Cyhoeddir rhaglen y cyrsiau ar wefan y Swyddfa Datblygu Staff ac mewn rhaglen ddwyieithog a anfonir at bob aelod o'r staff. Mae Ysgrifenyddion Adrannau yn cadw copïau ar gyfer eu dosbarth i uwchraddedigion. Bydd rhaglen llawn y cyrsiau Datblygu Staff, a'r rhai a gynigir gan y Gwasanaethau Gwybodaeth (cyrsiau Llyfrgell a Chyfrifiaduron), i'w gweld hefyd ar hysbysfyrdau'r Adrannau.

9.3 Mae gan y swyddfa gasgliad o lyfrau a fideos am ddyddu a materion yn ymwneud â dysgu, a gall roi cyngor ynghylch datblygu sgiliau dysgu. Gwahoddir uwchraddedigion i gysylltu â'r swyddfa os oes ganddynt unrhyw gwestiynau ynglŷn â'u dysgu a sut orau i hyrwyddo dysg myfyrwyr. Cedwir casgliad o ddeunydd am ddyddu a dysgu sy'n prysur dyfu yn Llyfrgell Hugh Owen ynghyd â'r Casgliad Astudio Effeithiol, ac anogir myfyrwyr uwchraddedig i bori drwyddynt. Byddant yn dod o hyd i gyngor ymarferol yn ogystal â gwybodaeth am y proses dysgu. Cynhwysir seminarau ar ddyddu fel rhan o'r Modiwlau Hyfforddiant Ymchwil y gall pob myfyriwr uwchraddedig sy'n mynd i ddyddu eu dewis.

9.4 Mae'n rhaid i uwchraddedigion sy'n cael eu cyflogi'n Wardeniaid Cynorthwyol mewn Neuaddau Preswyl fynychu rhaglen ragarweiniol lle trafodir materion megis cymorth cyntaf mewn argyfwng, problemau cyffuriau, rhoi cyngor mewn profedigaeth a delio ag aflonyddwch.

9.5 Mae ymchwiliwyr hefyd yn cael eu gwahodd i fynychu gweithdi a gynhelir yn ystod y flwyddyn i ymchwiliwyr ar contractau. Mae'r rhain yn ystyried materion megis datrys problemau, rheoli prosiect ymchwil, cynllunio gyrfa, a chyfraith cyflogaeth.

9.6 I gael rhagor o wybodaeth am faterion datblygu staff, cysyllter ag *Annette Edwards* yn y *Swyddfa Datblygu Staff* (gweler y cyfeiriadau).

10. **GWASANAETHAU GWYBODAETH**

10.1 **Gwasanaethau Llyfrgell**

Y Gwasanaethau Gwybodaeth sy'n gyfrifol am y cyfleusterau llyfrgell, gwasanaethau cyfrifiadurol a gwasanaethau clyweled yn ganolog o fewn y Brifysgol.

Ceir golwg cyffredinol ar y cyfleusterau ar y we yn www.inf.aber.ac.uk

Yn Llyfrgell Hugh Owen ar Gampws Penglais ceir prif gasgliadau'r Brifysgol yn y Dyniaethau, y Gwyddorau Cymdeithasol, y Gwyddorau Daear a Biolegol, a'r Gyfraith. Mae gan y Gwyddorau Ffisegol, Cyfrifiadureg, a Mathemateg eu casgliadau arbenigol yn Llyfrgell y Gwyddorau Ffisegol.

Mae Llyfrgell Thomas Parry ar Gampws Llanbadarn yn cynnwys testunau ar y Gwyddorau Gwybodaeth ac Amaethyddiaeth. Mae gan yr Adran Addysg ei chasgliadau arbenigol ei hun yn Llyfrgell yr Hen Goleg ar lan y môr.

Mae gan lyfrgelloedd y Brifysgol dros 700,000 o gyfrolau a mwy na 3,000 o gyfnodolion gwahanol. Yn ogystal, gall myfyrwyr droi at ystod sylweddol o adnoddau gwybodaeth, ystod sy'n cynyddu'n gyson ar gyfrifiadurol a chysylltiadau â llyfrgelloedd eraill.

Gweler www.inf.aber.ac.uk/academicliaison/elecinfo.asp Yn ogystal, mae nifer o staff arbenigol wrth law i'ch helpu i fanteisio'n llawn ar y casgliadau.

10.2 **Cyfleusterau Cyfrifiadurol**

Mae'r Gwasanaethau Gwybodaeth yn darparu ac yn cynnal cyfleusterau cyfrifiadurol i'w defnyddio gan staff a myfyrwyr y Brifysgol. Mae'r cyfleusterau cyfrifiadurol hyn yn cynnig fframwaith cynhwysfawr ar gyfer dysgu ac ymchwil. Maent yn cynnwys 30 o ystafelloedd cyfrifiadurol ar rwydwaith, mewn llyfrgelloedd, mewn adeiladau academiaidd a neuaddau preswyl, yn ogystal â pheiriannau'r staff sydd ar y rhwydwaith. Mae amrywiaeth mawr o feddalwedd ar gael ar beiriannau'r gweithfannau cyhoeddus i gynorthwyo gwaith y staff a'r myfyrwyr sy'n eu defnyddio. Mae nifer o systemau canolog sy'n seiliedig ar UNIX yn darparu storfa ganolog o ffeiliau, gweinyddwr lleol i'r We, cymorth llawn ar gyfer e-bost, grym cyfrifiadurol, a nifer o gyfleusterau eraill hefyd. Mae modd defnyddio'r adnoddau hyn hefyd o ystafelloedd y myfyrwyr mewn nifer o neuaddau preswyl ac mae'r ddarpariaeth yn cael ei ehangu'n gyson. Mae gwasanaeth mynediad o bell VPN: Virtual Private Network yn caniatáu i fyfyrwyr ddefnyddio'r gwasanaethau canolog ac e-bost trwy gyfrwng modem oddi allan i'r Brifysgol. Ceir pwyntiau WiFi yn Llyfrgell Hugh Owen, Canolfan y Celfyddydau, Adeilad Llandinam, ar Gampws Llanbadarn ac yn Llyfrgell yr Hen Goleg. Byddant yn cael eu hystyngtu fel y mae adnoddau a'r galw yn caniatáu. <http://www.inf.aber.ac.uk/ns3/networking/ndt/wireless.asp> Mae rhwydwaith y campws wedi ei gysylltu â rhwydwaith JANET, ac y mae hyn yn darparu mynediad i'r Rhyngwrld er mwyn cefnogi astudiaethau academiaidd.

10.3 **Cysylltu â ni**

Mae gan bob llyfrgell Ddesg Wybodaeth; rhoddir manylion ynghylch sut i gysylltu â hwy isod. Mae gan y Gwasanaethu Cynghori ynghylch Cyfrifiadurol 2 Ddesg Gymorth, yn naill yn Llyfrgell Hugh Owen a'r llall yn Llyfrgell Thomas Parry. Yn ogystal, gellir cysylltu â'r Gwasanaeth Cynghori trwy bost mewnol, trwy e-bost, a thrwy deffon (gweler y cyfeiriadau isod).

10.4 **Cwestiynau a holir yn aml (FAQs)**

Cronfa o gwestiynau cyffredin a'r atebion iddynt yw hon. Mae'n cynnwys y cwestiynau a ofynnir amlaf i'r Gwasanaethau Cynghori. Dewiswch rhwng y cwestiynau ar Gyfrifiadurol neu'r Llyfrgell ac yna defnyddiwch chwiliad allweddair i gael help. Gweler www.inf.aber.ac.uk/advisory/cymraeg/faqs/defaultfaqs.asp.

10.5 **Ystafelloedd Gweithfannau**

Gellir gweld manylion am y rhain wrth droi at: www.inf.aber.ac.uk/ns3/cymraeg/workstationrooms. Mae mynediad 24 awr ar gael at rai gweithfannau, ac mae modd defnyddio printwyr hunanwasanaeth 24 awr trwy ddefnyddio cerdyn allwedd personol.

10.6 I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r *Gwasanaethau Gwybodaeth* (gweler cyfeiriadau).

11. **LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU**

11.1 Mae'r ffaith fod Llyfrgell Genedlaethol Cymru yma'n Aberystwyth yn cyfoethogi'r cyfle i wneud gwaith ymchwil. Mae'r Llyfrgell yn union gerllaw campws y Brifysgol. Fel un o'r chwe llyfrgell gadw gyfreithiol ym Mhrydain ac Iwerddon, mae'r Llyfrgell yn derbyn llyfrau a chyfnodolion cyfredol, mapiau, cerddoriaeth a deunydd printiedig arall, a hefyd yn casglu deunyddiau electronig. Yn ogystal, mae'n cadw toreth o lawysgrifau ac archifau, lluniau, ffotograffau a darluniau sy'n ymwneud â Chymru. Mae'n gartref i Archif Sgrin a Sain Genedlaethol Cymru, sy'n cynnwys casgliad helaeth o ffilmiau, hen ffilmiau teledu a recordiadau sain o ddiddordeb Cymreig. Yn eu crynswth mae adnoddau'r Llyfrgell Genedlaethol yn drysordy gwlad ar gyfer ysgolheictod rhyngwladol.

11.2 Mae'r ystafelloedd darllen ar agor o 9.30am tan 6.00pm yn ystod yr wythnos, ac o 9.30am tan 5.00pm ddydd Sadwrn. Mae'r Llyfrgell ar gau ddydd Sul, yn ystod gwyliau cyhoeddus ac ar rai dyddiau eraill yn ystod y flwyddyn. Mynediad trwy Docyn Darlennydd sydd ar gael o'r Llyfrgell.

11.3 Am ragor o wybodaeth, cysyllter â *Llyfrgell Genedlaethol Cymru* (gweler y cyfeiriadau).

12. **Y GWASANAETH CYNGHORI AR YRFAOEDD**

12.1 Bydd y Gwasanaeth Cynghori ar Yrfaedd yn rhoi arweiniad ichi ar ddatblygu eich sgiliau trosglwyddadwy, a sut i gael swydd – neu ragor o hyfforddiant os yw'n berthnasol. Mae yna Llyfrgell Yrfaedd helaeth ac mae'r tudalennau Gyrfaoedd ar y We yn cael eu diweddarau'n aml er mwyn rhoi gwybod am y rhaglenni a gynigir a swyddi gwag. Mae ein gwefan yn rhoi cyngor ar nifer o feysydd sgiliau megis chwilio am swydd, cyflwyno cais, llunio CV a sgiliau cyfweiliad. Mae'r wefan hefyd yn rhoi cysylltiad â gwefannau sawl cyflogwr mawr. Mae pecyn gwerthfawr o arweiniad ar yrfaedd, PROSPECTS Planner, ar gael ar y rhwydwaith ac mae modd defnyddio cronfeydd data cyflogwyr yn y Llyfrgell Yrfaedd a chael mynediad i 'Funderfinder' (ar gyfer grantiau bychain i ategu eich incwm). Am waith rhan-amser a chyfleoedd i raddedigion gweler www.aber.ac.uk/careers/joblink.

12.2 Mae'r Gwasanaeth Gyrfaoedd yn cydweithio'n agos â phob adran academiaidd ac y mae staff y Gwasanaeth Gyrfaoedd yn cyfranu i'r Rhagel'n Hyfforddi a Datblygu Uwchraddedigion. Yn ystod tymhorau'r Hydref a'r Gwanwyn cynigir gweithdai opsiynol ar ddatblygu sgiliau penodol, sgysiaur ar yrfaedd a phroffion addasrwydd (dan arweiniad ymgynghorydd cymwys dan amodau arholiad caeth). Trefnir i gyflogwyr gynnal cyfweiliadau ar y Campws a dod i'r Ffair Yrfaedd bob mis Mawrth. Mae gwybodaeth ar gael ar dudalennau'r Gwasanaeth ar y We. Mae modd cael sgwrs yn unigol ag ymgynghorydd gyrfaoedd ar bob agwedd ar waith ar ôl graddio neu gael help i lenwi ffurflen gais neu lunio CV, a gellir trefnu hyn yn bersonol neu dros y ffôn.

12.3 Cynghorir uwchraddedigion i ymweld â'r Gwasanaeth Gyrfaoedd ar y cyfle cyntaf er mwyn peidio â cholli'r dyddiadau cau cynnar ym mis Medi a mis Hydref, ac er mwyn cynllunio eu rhaglenni eu hunain ar ddatblygu sgiliau a chwilio am swydd.

12.4 I gael rhagor o wybodaeth, cysyllter â'r *Gwasanaeth Cynghori ar Yrfaedd* (gweler y cyfeiriadau).

13. **BRYNAMLWG - Clwb Chwaraeon a Chymdeithasol Prifysgol Cymru, Aberystwyth**

13.1 Mae aelodaeth o glwb y staff ar gael i'r holl fyfyrwyr uwchraddedig. Wrth ymaelodi cewch fynediad i d'r clwb, sydd mewn man cyfleus ar y Campws uwchben Canolfan y Celfyddydau ac Undeb y Myfyrwyr a nesaf at neuaddau Trefloyne a Rosser.

Mae yno bob math o adnoddau cymdeithasol (bar trwyddedig, prydau – yn cynnwys cinio am £3.50 ond gyda gostyngiad i aelodau uwchraddedig, ystafell deledu, ystafell chwaraeon ac ystafell bartion). Mae ymaelodi hefyd yn rhoi'r hawl ichi ddefnyddio cyfleusterau chwaraeon y Brifysgol am bris gostyngol. Ceir rhaglen gref o ddigwyddiadau cymdeithasol a cherddorol. Mae'r ystafelloedd cyfarfod ar gael i aelodau ac yn ddefnyddiol iawn i gynnal seminarau anffurfiol a chyfarfodydd.

13.2 Ar hyn o bryd cost ymaelodi yw £12 y flwyddyn, sef 50% o'r gost llawn. (DS: mae aelodaeth yn cynnwys eich cymar a'ch plant hefyd).

13.3 I gael rhagor o fanylion, cysylltwch â'r *Ysgrifennydd Aelodaeth* (gweler y cyfeiriadau).

14. Y GANOLFAN GERDD

14.1 Bu'r Brifysgol ynghlwm â bywyd cerddorol Aberystwyth ers tro maith. Mae'r berthynas gerddorol agos rhwng y Coleg a'r dref yn parhau trwy gyfrwng y Ganolfan Gerdd. Mae'r Ganolfan, ar y cyd â'r Ganolfan Addysg Barhaus, yn cynnig rhywbeth at ddant pawb yn ei rhaglen. Cynigir yr un croeso i fyfyrwyr ac i bobl y dref. Beth bynnag yw'ch diddordeb, fe gewch ddigon o ddewis. Ein cartref yw 10 Maes Lowri, yng nghanol y dref yn yr adeilad sy'n cynnwys Neuadd Joseph Parry, ac rydym bob amser yn barod i ateb ymholiadau. Er na chynigir gradd mewn cerddoriaeth yma bellach, mae'r Brifysgol yn llawn sylweddoli pwysigrwydd gweithgaredd cerddorol. Mae cenedlaethau o fyfyrwyr wedi darganfod rhin arbennig cerddoriaeth yn Aberystwyth. Mae'n lle da i astudio, yn lle da i fyw, ac yn lle arbennig iawn ar gyfer cerddoriaeth.

14.2 CANU – Beth bynnag yw'ch profiad a'ch dewis, fe gewch gyfle gwych i ganu yn Aberystwyth. Côr mawr cymysg yw'r Undeb Gorawl sy'n perfformio gweithiau mawr megis *Requiem* Verdi ac Eleias, Mendelssohn. Does dim prawf-wrandawiadau ac mae croeso i bawb. Mae cantorion Madrigal, côr siambr ag aelodaeth trwy brawf, yn perfformio repertoire helaethach o lawer nag y byddai'r enw yn ei awgrymu. Mae aelodaeth frwd a ffyddlon gan y 'Mads' fel y'u gelwir, a chawsant glod am eu safonau uchel. Mae Neuadd Pantycelyn yn enwog am ei chorau mawr a'i chorau cerdd dant, sy'n gystadleuwyr brwd yn yr eisteddfodau. I'r rhai sy'n hoffi canu ym myd y theatr mae yna ddau gwmi sy'n arbenigo ar sioeau cerdd, sef Theatr Gymunedol Aberystwyth dan nawdd Canolfan y Celfyddydau, a'r *Showtime Singers*, sydd hefyd yn perfformio Gilbert & Sullivan ac operettas eraill.

14.3 OFFERYNNAU – Mae Aberystwyth yn cynnig cyfle gwych i offerynwyr hefyd. Mae cerddorfa symffoni'r Brifysgol, **Philomusica Aberystwyth** yn canolbwyntio ar gerddoriaeth y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif. Mae enw nodedig i'r gerddorfa fawr hon, sydd wedi gweithio gydag unawdwyr rhyngwladol. Cerddorfa siambr yw **Sinffonia'r Brifysgol**, sy'n canu repertoire mwy addas i grwpiau bychain. Rhaglenni mentrus a chyffrous sydd ganddi, ac mae'r safon yn uchel. Ar lefel fwy anffurfiol mae'r Brifysgol yn cynnal grŵp llinynnol wythnosol, *Simply Strings*, Côr Ffliwtiau a Band. Yn ystod yr haf mae croeso i fyfyrwyr ymuno â **Cherddorfa Haf Aberystwyth**.

Mae **Band Chwyth Symffonig y Brifysgol** yn cynnig y cyfle i offerynwyr chwyth a tharo gael profiad o holl amrediad repertoire y band chwyth. Mae'n rhoi agoriad i gerddorion profiadol a newydd heb gyfaddawdu ar y pleser na'r safonau. Cynhelir cyngherddau yn y dref ac ymhellach i ffwrdd, ac mae ymweliadau ag Iwerddon yn mynd yn rhan boblogaidd o'r rhaglen. Mae gan **Seindorf Arian Aberystwyth** raglen brysor o gyngherddau a chystadlaethau, ac mae'n annog myfyrwyr i ymuno.

14.4 I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â'r *Ganolfan Gerdd* (gweler y cyfeiriadau).

15. CLWB SBORTY

15.1 Clwb chwaraeon a ffitrwydd i fyfyrwyr PCA yw Clwb Sborty. Mae'n cael ei reoli a'i weinyddu ar y cyd gan y Ganolfan Chwaraeon a Swyddfa Chwaraeon Undeb y Myfyrwyr. Ein bwriad yw cynnig y ddarpariaeth orau posibl o chwaraeon i'n haelodau.

15.2 PWY ALL YMUNO Â CHLWB SBORTY?

Mae gan bob myfyriwr israddedig ac uwchraddedig yr hawl i ymuno â Chlwb Sborty. Y gost yw £30.00 am y flwyddyn academaidd, neu mae tâl gostyngol i'r rhai sydd am ymuno am ran o'r flwyddyn academaidd yn unig. Ceir cynllun aelodaeth teulu lle y ceuch chi, eich cymar ac unrhyw blant ymuno am £52.50.

15.3 BETH YW MANTEISION YMUNO Â CHLWB SBORTY?

- Defnydd hamdden am ddim o adnoddau'r Ganolfan Chwaraeon, e.e. y pwll noffio, y cae chwarae pob tywydd, y stiwdio ddawns, yr ystafell ymestyn, cyrtiau tenis a'r prif neuaddau chwaraeon i badminton, pêl foli a phêl fasged.
- Hawl i ymuno â'r 50 o glybiau chwaraeon i fyfyrwyr.
- Yswiriant am bob aelod-fyfyrwr sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon yn PCA.
- Taliadau gostyngol am ddefnyddio'r ganolfan les, ystafell y pwysau rhydd, ymarferion 'heini â'n gilydd' a dosbarthiadau adloniadol, therapi chwaraeon, ac am hyfforddi a dyfarnu mewn chwaraeon. Prisiau gostyngol am ddefnyddio wal ddringo 'Boxrox'.
- Y cyfle i gynrychioli Prifysgol Cymru, Aberystwyth yng nghystadlaethau a phencampwriaethau BUSA.
- Cymhorthdal i gynrychiolaeth ryngwladol.
- Llawer mwy!

15.4 SUT YDW I'N YMUNO?

Mae ffurflenni ar gael o swyddfa'r Undeb Athletau (yn Undeb y Myfyrwyr) ac yn y *Ganolfan Chwaraeon* (gweler y cyfeiriadau). Ebostr: Sports@aber.ac.uk

STAFF ALLWEDDOL – GWEINYDDWYR

Miss Hayley Burns
Swyddfa Academaidd
Mewnol 2849
Allanol 622849
Ebostr hbb@aber.ac.uk

Ffacs 621831 / Mewnol 1831

Yn gyfrifol am weinyddiaeth cyflwyno ac arholi pob Traethawd Ymchwil Uwchraddedig. Ymdrin ag ymholiadau ynghylch cyflwyno Traethodau Ymchwil Uwchraddedig. Yn gyfrifol am anfon dogfennau swyddogol sy'n cadarnhau statws myfyrwyr; cofnodion academaidd a phresenoldeb ac am anfon Tystysgrifau Clirio Ffioedd er mwyn cyflwyno traethodau uwchraddedig (sef y 'Tystysgrifau Aur').

Mrs Jan Davies

Swyddfa Astudiaethau Uwchraddedig

Mewnol 2219

Allanol 622219

Ebost postgraduate.office@aber.ac.uk

Ffacs d/o 621872 / **Mewnol 1872**

Cymorth gweinyddol ac ysgrifenyddol i'r Cyfarwyddwr Astudiaethau Uwchraddedig gan gynnwys: (i) yr holl gymorth gweinyddol i Gynllun y sefydliad ar gyfer Hyfforddiant Ymchwil a Datblygiad, ac am gydgyssylltu a datblygu cynlluniau hyfforddiant ymchwil yn y Brifysgol; (ii) cymorth gweinyddol i'r Bwrdd Astudiaethau Hyfforddiant Ymchwil a (iii) cymorth gweinyddol i'r Bwrdd Arholi Hyfforddiant Ymchwil, gan gynnwys cydgyssylltu ag arholwyr allanol, crynhoi a dosbarthu marciau Hyfforddiant Ymchwil i'r adrannau academaidd sy'n rhan o'r cynllun.

Dr Tracy Herberts

Swyddfa Academaidd

Mewnol 2195 / 2274

Allanol 622195 / 622274

Ebost lma.aber.ac.uk

Ffacs 621831 / Mewnol 1831

Cofrestru uwchraddedigion a chofnodion ar gyfrifiadurol (myfyrwyr amser llawn a rhan-amser); ymgeiswyr staff: rheolau; canlyniadau arholiad; dyddiadau cau wrth gyflwyno gwaith; ymgeiswyr am raddau uwch.

Dr Alan Macmillan

Swyddfa'r Deoniaid

Mewnol 2256 / 2525

Allanol 622256 / 622525

Ebost anm@aber.ac.uk

Ffacs 621872 / Mewnol 1872

Cofrestru, cynnal cofnodion cyfrifiadurol a thrafod ymholiadau ynghylch rheoliadau ar fyfyrwyr uwchraddedig dysgu o bell; gohirio dyddiadau cyflwyno traethodau ymchwil; cyfrifoldeb gyda Katerina Stivasari am weinyddu Cystadleuaeth Grantiau Uwchraddedig Aberystwyth.

Mrs Katerina Stivasari

Swyddfa Dderbyn (Graddedigion)

Mewnol 2020

Allanol 622020

Ebost gvpaks@aber.ac.uk

Ffacs 622921 / Mewnol 2921

Derbyn uwchraddedigion a myfyrwyr dysgu o bell o wledydd Prydain a'r Undeb Ewropeaidd; yn gyfrifol gydag Alan Macmillan am weinyddu Cystadleuaeth Grantiau Uwchraddedig Aberystwyth; gweinyddu ceisiadau i gynghorau ymchwil am grantiau. Gweinyddu grantiau teithio APRS ar gyfer pob myfyriwr. Gwirio a chymeradwyo tystysgrifau gradd ar gyfer matricwleiddio myfyrwyr o'r UE.

Dr Rhys Williams

Swyddfa Dderbyn (Graddedigion)

Mewnol 2921

Allanol 622921

Ebost rlw@aber.ac.uk

Ffacs 622921 / Mewnol 2921

Ymholiadau Cyffredinol 622023

Derbyn myfyrwyr uwchraddedig tramor (h.y. gwledydd y tu allan i'r Undeb Ewropeaidd); marchnata a denu uwchraddedigion; gweinyddu Cynllun Grantiau Myfyrwyr Ymchwil Tramor a Chynllun Ysgoloriaeth ar y Cyd yr Adran er Datblygiad Tramor. Dilysu a chymeradwyo tystysgrifau gradd ar gyfer matricwleiddio. Yn ymwneud â cheisiadau trwy gyfrwng y Gymraeg.

YMHOLIADAU CYFFREDINOL

Cyllid:

Swyddfa'r Ariannwr 2040

Tystysgrifau cofrestru / Dogfennau cyflwyno:

Swyddfa Academaidd 2015/2272

STAFF ALLWEDDOL – CYFEIRIADAU A RHIFAU FFÔN

Swyddfa Derbyn Graddedigion

Yr Hen Goleg, Stryd y Brenin, Aberystwyth

Ceredigion SY23 2AX

Ffôn: (01970) 622023/622270

Ffacs: (01970) 622921

E-bost: pg-admissions@aber.ac.uk

Ar y We: www.aber.ac.uk/pga/

Swyddfa Academaidd

Yr Hen Goleg, Stryd y Brenin, Aberystwyth
Ceredigion SY23 2AX
Ffôn: (01970) 622274/2195
Ffacs: (01970) 621831
E-bost: mvd@aber.ac.uk

Ar y We:

Swyddfa Academaidd:

www.aber.ac.uk/academicoffice/

Materion Uwchraddedig

www.aber.ac.uk/academicoffice/postgraduate/studguide.shtml

Swyddfa Astudiaethau Uwchraddedig

G9 Adeilad Cledwyn, Campws Penglais, Aberystwyth
Ceredigion SY23 3DD
Ffôn: (01970) 622219
Ffacs: 01970 621872
E-bost: postgraduate.office@aber.ac.uk
Ar y We: <http://www.aber.ac.uk/postgrads/>

Cymdeithas yr Uwchraddedigion

Yr Ysgrifennydd, d/o Swyddfa Astudiaethau Uwchraddedig (gweler uchod)
Ar y We: www.aber.ac.uk/~pgowwww

Gwasanaethau Masnacheiddio ac Ymgynghori

Adeilad Cledwyn, Penglais, Aberystwyth, SY23 3DD
Ceredigion SY23 3DA
Ffôn: 01970 622385
Ffacs: 01970 622959
E-bost: ccservices@aber.ac.uk
Ar y We: www.aber.ac.uk/ccservices/

Swyddfa'r Deoniaid

Adeilad Cledwyn, Campws Penglais, Aberystwyth
Ceredigion SY23 3DD
Ffôn: 01970 622525/7
Ffacs: 01970 621872

Y Ganolfan Iaith a Dysgu

Pauline Worthington
Canolfan Iaith a Dysgu, Adeilad Llandinam, Aberystwyth
Ceredigion SY23 3DB
Ffôn: (01970) 622545
Ffacs: 01970 622546
E-bost: puw@aber.ac.uk
Ar y We: www.aber.ac.uk/language+learning/

Cyfarwyddwr Lles

Yr Hen Goleg, Stryd y Brenin, Aberystwyth,
Ceredigion SY23 2AX
Ffôn: 01970 622955
Ffacs: 01970 621552

Meithrinfa Glenview

Ffordd Bryn-y-môr, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2HX
Ffôn: (01970) 623325
E-bost: elm@aber.ac.uk

Swyddog Anabledd

Rhun ap Harri
G7 Adeilad Cledwyn, Penglais, Aberystwyth
Ceredigion SY23 3DD
Ffôn: 01970 628537
E-bost: rha@aber.ac.uk

Canolfan Feddygol y Brifysgol

2 Glan-y-Môr, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2AX
Ffôn: (01970) 622087

Swyddfa Cymorth Ariannol i Fyfyrrwyr

Adeilad Cledwyn, Campws Penglais, Aberystwyth
Ceredigion SY23 3DD
Ffôn: 01970 621761
Ffacs: 01970 621759
E-bost: sfostaff@aber.ac.uk
Ar y We: www.aber.ac.uk/studentfinance/

Swyddfa Datblygu Staff

Adeilad Cledwyn, Campws Penglais, Aberystwyth
Ceredigion SY23 3DD
Ffôn: (01970) 622117
E-bost: staff.dev@aber.ac.uk
Ar y We: www.aber.ac.uk/staffdevelopment

Gwasanaethau Gwybodaeth

Llyfrgell Hugh Owen, Campws Penglais, Aberystwyth
Ceredigion
Ffôn: 01970 622399 (Ymholiadau Cyffredinol)
E-bost: libinfo@aber.ac.uk
Ar y We: www.aber.ac.uk/library/

Desgiau Cymorth y Gwasanaethau Gwybodaeth

Ffôn: 01970 622474 [9 - 5pm a ffôn ateb – COFIWCH adael neges!]
E-bost: advisory@aber.ac.uk
Ar y We: www.inf.aber.ac.uk/

Llyfrgell Genedlaethol Cymru

Aberystwyth, Ceredigion SY23 3BU
Ffôn: 01970 632800
Ffacs: 01970 615709
E-bost: holi@llgc.org.uk
Ar y We: www.llgc.org.uk/

Gwasanaeth Cynghori ar Yrfaoedd

Adeilad Edward Llwyd, Campws Penglais, Aberystwyth
Ceredigion SY23 3DP
Ffôn: 01970 622378
Ffacs: 01970 622370
Ar y We: www.aber.ac.uk/careers

Cyswllt Gwaith

Undeb y Myfyrrwyr, Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 3OX
Ffôn: 01970 621791
E-bost: joblink@aber.ac.uk

Ar y We: www.aber.ac.uk/careers/joblink

Brynamlwg

Ysgrifennydd Aelodaeth

Brynamlwg, Cefn Llan, Aberystwyth, Ceredigion

Ffôn: 01970 623914

Ar y We: www.aber.ac.uk/brynamlwg/

Y Ganolfan Gerdd

Prifysgol Cymru, Aberystwyth

10 Maes Lowri, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2AU

Ffôn: 01970 622685

Ffacs: 01970 621574

E-bost: muswww@aber.ac.uk

Ar y We: www.aber.ac.uk/~muswww

Clwb Sborty

Swyddfa Aelodaeth: 01970 621500

Swyddog Hamdden: 01970 622278

E-bost: sports@aber.ac.uk

Derbynfa: 01970 622280

Swyddfa'r Undeb Athletau: 01970 621754/55

Ar y We: www.aber.ac.uk/sportscentre